Coeden Ddarllen Rhydychen




Rhagor o Dylluanod

# Ras y Ceir Bach Gwyllt


Roderick Hunt    Alex Brychta



DRAKE




Gwelodd Wilma a Cad hysbysiad.
Sôn yr oedd am ras i geir bach gwyllt.
Cafodd Wilma syniad.
Soniodd wrth Cad amdano.



Roedd Cad a Wilma yn gyffrous.
Dywedon nhw wrth Mam am y ras.
‘Ryn ni angen car bach gwyllt,’ meddai Cad.
‘Beth am yr hen un?’




Aeth Mam i’r sied.
Cafodd hyd i’r hen gar bach gwyllt, ond roedd wedi torri ac wedi rhydu.
‘O na!’ meddai Cad.



Dywedodd Cad wrth Dad am y ras.
Edrychodd Dad ar yr hen gar bach gwyllt.
'Mae hwn wedi torri,' meddai.
'Ond gallwn wneud un newydd.'






Gwnaeth y rhieni gar bach gwyllt newydd.
Roedd pawb eisiau helpu.
Edrychodd Cad a Mam ar y cynlluniau.
Helpodd Wilma ei thad.



Paentiodd Mam y car bach gwyllt.
Helpodd Dids.
Roedd e'n un da am baentio.
'Mae'n edrych yn wych!' meddai Cad.




Edrychodd pawb ar y car bach gwyllt newydd.
Roedd Cad am fynd arno, ond dywedodd Mam na fedrai.
Roedd y paent yn dal yn wlyb.



Aeth Mam â'r plant i barc.
Roedd rhiw yn y parc.
Roedd yn lle da i roi tro ar y
car bach gwyllt newydd.

Wilma aeth gyntaf ond
cafodd pawb dro.
Cad aeth olaf.
'Mae'n wych!' meddai.



Gwelodd Wilma gar bach gwyllt arall.
'Anneena yw hi,' meddai.
'Mae ganddi hi gar bach gwyllt hefyd.'





Edrychodd pawb ar gar bach gwyllt Anneena.
'Mae'n edrych yn un cyflym,' meddai Wilma.
'Ond mentra i fod ein cerbyd ni'n gyflymach.'
'Mentra i nad yw e,' meddai Anneena.



Cafodd Wilma ac Anneena ras.

Rasiodd y ceir bach gwyllt i lawr y rhiw.

Roedd Anneena ar y blaen.

'Dewch ymlaen!' bloeddiodd Cad.





Yn sydyn, rhedodd ci o flaen Anneena.

Trawodd ei char bach gwyllt lwyn.

Trawodd Wilma Anneena.



Edrychodd pawb ar y ceir bach gwyllt.
Roedd olwynion blaen Wilma wedi plygu.
Roedd car bach gwyllt Anneena wedi torri.
Roedd pawb yn ddigalon.





Edrychodd Dids ar y ceir bach gwyllt.
Cafodd syniad.
Dywedodd wrth Mam beth oedd ei syniad.
‘Am syniad gwych!’ meddai Mam.




Gwnaeth y rhieni gar bach gwyllt newydd.
Gwnaethon nhw un cerbyd o'r ddau.
Rhoddon nhw flaen car Anneena
ar gefn un Wilma.






Roedd y plant yn hoffi'r car bach gwyllt newydd.
Galwon nhw e'r Fwled Arian.
'Beth am y ras?' gofynnodd Cad.
'Mentra i y bydd y Fwled Arian yn ennill.'




Roedd yn ddiwrnod y ras.
Roedd pawb yn gyffrous.
'Edrychwch ar yr holl geir bach gwyllt!' meddai Cad.




Roedd Cad eisiau gyrru ond roedd Wilma ac Anneena eisiau hefyd.
Yn y diwedd, taflodd Mam geiniog ac Anneena enillodd.



Roedd yn amser i'r ras.
'Un…dau…tri…ewch!'
galwodd y cychwynnwr.
'Dere ymlaen, Anneena!' galwodd Cad.



Rasiodd y ceir bach gwyllt i lawr y rhiw.
Roedd pawb yn bloeddio ac yn gweiddi hwrê.
Aeth Anneena yn gyflym.
Roedd y Fwled Arian ar y blaen.





Nid Anneena enillodd.

Aeth dau gar bach gwyllt yn gyflymach.

Daeth y Fwled Arian yn drydydd.

'O na!' meddai Cad.






Roedd Anneena wedi'i siomi.

'Roeddwn i eisiau ennill,' meddai.

'Na hidia,' meddai Cad.

'Y Fwled Arian yw'r gorau o hyd.'




Cafodd y Fwled Arian wobr.
Hwn oedd y car bach gwyllt harddaf.
'Hwrê!' bloeddiodd pawb.
'Dywedon ni mai hwn oedd y cerbyd gorau!'

Argraffwyd yng Nghymru

# Ras y Ceir Bach Gwyllt

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 6



Rhagor o
Dylluanod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**

**Tylluanod Cam 6**

1 Yn yr Ardd
2 Onw a'r Cawr
3 Y Wibdaith
4 Gwlad y Deinosoriaid
5 Robin Hwd
6 Y Gist Drysorau

**Tylluanod Cam 7**

7 Y Blaned Goch
8 Ar Goll yn y Jyngl
9 Twll yn y To
10 Colli Allwedd

**Rhagor o Dylluanod Cam 6**

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

**Rhagor o Dylluanod Cam 7**

Y Drafferdd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1994
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-302-4

ISBN 0 86 174302 4

DRAKE

9 790861 743024